Coeden Ddarllen Rhydychen




Rhagor o Dylluanod

# Afalau Drwg


Roderick Hunt        Alex Brychta



DRAKE




Roedd Cad eisiau helpu Mam, felly
rhoddodd Mam waith iddi.
‘Cod yr afalau fel y gallaf fi dorri’r
borfa,’ meddai Mam.




Cododd Cad afal.
'Ych!' meddai.
'Mae rhai o'r afalau yn ddrwg.'
Chododd hi mo'r afalau drwg.





Gwnaeth Mam i Cad godi'r afalau drwg i gyd.
'Rho nhw yn y bocs,' meddai Mam.
'Am waith ofnadwy,' meddai Cad.



Rhoddodd Cad y bocs afalau ger
y bin lludw.
'Ych! Afalau drwg!' meddai.



Roedd Onw yn gyffrous.
'Tyrd i weld hwn!' meddai.
'Beth yw e?' gofynnodd Cad.
'Tyrd i weld,' meddai Onw.




Daeth dyn gyda chart a cheffyl
i lawr y stryd.
Arhosodd y dyn y tu allan i'r tŷ.
'Harri Smith yw e,' meddai Dids.



Roedd pawb yn hoffi Harri Smith.
Roedd e'n gwneud i bobl chwerthin.
Gwisgai het silc a chot goch.
Roedd yn gwerthu pethau o'i gart.



Canodd Harri Smith gloch.
'Dewch i weld!' meddai.
'Mae gen i adar digri.'
Chwarddodd Cad a Dids.






Prynodd Mam goed tân.
Roedd y coed tân yn drwm.
Helpodd Harri Smith Mam i'w
cario nhw.



Edrychodd Cad ar y ceffyl.
'Gawn ni roi afal i'r ceffyl?'
gofynnodd.
'Cewch,' meddai Harri Smith.





Cododd Cad afal.
Daliodd e allan.
Cymerodd y ceffyl e â'i
ddannedd mawr.



Gwelodd y ceffyl y bocs afalau.
Dechreuodd eu bwyta nhw.
'O na!' meddai Cad.
'Mae'n bwyta'r rhai drwg i gyd.'





Dywedodd Cad wrth Harri Smith am y ceffyl.
Chwarddodd Harri.
'Wyddwn i ddim ei fod e'n hoffi
afalau drwg,' meddai.



Edrychodd Cad yn y bocs.
Roedd yn wag.
Roedd yr afalau i gyd wedi mynd.
'Am geffyl barus!' meddai Cad.







Roedd y plant eisiau mynd am dro.
'Neidiwch i fyny!' galwodd Harri Smith.
Dringodd y plant ar y cart.
'Daliwch eich gafael!' meddai Harri.



Dechreuodd y ceffyl redeg.
Tynnodd Harri Smith yn yr awenau.
'Arafa!' bloeddiodd.
Ond aeth y ceffyl yn fwy a mwy cyflym.




Rhedodd y ceffyl i lawr y stryd.
'Arafa!' bloeddiodd Harri Smith.
'Stopiwch!' bloeddiodd Mam.
'Help!' bloeddiodd y plant.




Wnâi'r ceffyl ddim stopio.
Rhedodd a rhedodd.
Rhedodd Mam ar ei ôl.
Tynnodd Harri Smith yn yr awenau.




Rhedodd i mewn i faes parcio.
'Gan bwyll,' bloeddiodd Harri Smith.
Dechreuodd y ceffyl siglo.
Gwnaeth sŵn rhyfedd.




Aeth y ceffyl yn arafach ac yn arafach.
Yn sydyn, stopiodd.
Yna eisteddodd ac
aeth i gysgu.




Dringodd Harri Smith a'r plant
oddi ar y cart.
'Mae'r ceffyl wedi meddwi,' meddai Mam.
'Pam mae e wedi meddwi?' gofynnodd Cad.




Edrychodd Harri Smith ar y ceffyl.
'Yr afalau drwg sydd wedi
meddwi'r ceffyl,' meddai.
Roedd yn flin gan Cad.



Chwarddodd Harri Smith.
Doedd dim gwahaniaeth ganddo.
Daeth pobl i weld y ceffyl.
Prynon nhw bethau o'r cart.



Gwerthodd Harri Smith bopeth.
Rhoddodd anrheg i'r plant.
'Gwnaeth afalau drwg Cad
dro da â mi,' meddai.

Argraffwyd yng Nghymru

# Afalau Drwg

Coeden
Ddarllen
Rhydychen

Cam 6



Stori gan
**Roderick Hunt**

Lluniau gan
**Alex Brychta**

Addasiad Cymraeg gan
**Juli Paschalis**

Rhagor o
Dylluanod

**Tylluanod Cam 6**

1 Yn yr Ardd
2 Onw a'r Cawr
3 Y Wibdaith
4 Gwlad y Deinosoriaid
5 Robin Hwd
6 Y Gist Drysorau

**Tylluanod Cam 7**

7 Y Blaned Goch
8 Ar Goll yn y Jyngl
9 Twll yn y To
10 Colli Allwedd

**Rhagor o Dylluanod Cam 6**

Braw yn y Nos
Afalau Drwg
Y Dywysoges a Allai Chwerthin
Antur Nadolig
Ras y Ceir Bach Gwyllt
Yr Allwedd Sgleiniog

**Rhagor o Dylluanod Cam 7**

Y Drafordd
Y Bwli
Chwilio am Aur
Antur Chineaidd
Antur Rufeinig
Y Jig-so

© Argraffiad Saesneg, Oxford University Press 1994
ⓗ Argraffiad Cymraeg, Gwasg Addysgol Drake 2000
ⓗ Yr addasiad Cymraeg ACCAC

ISBN 0-86174-299-0

ISBN 0 86 174299 0

DRAKE

9 790861 742997